



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trais yn Erbyn Menywod,
Cam-drin Domestig a Thrais
Rhywiol

Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais

Cynnwys:

1. Rhagair y Gweinidog	Tudalen 3
2. Cefndir	Tudalen 5
3. Pwrpas	Tudalen 10
4. Sut mae'r Safonau'n gymwys i'r achrediadau presennol?	Tudalen 12
5. Y Safonau:	Tudalen 15
1. Atgyfeirio	Tudalen 15
2. Meini prawf cymhwysedd	Tudalen 15
3. Cydsyniad	Tudalen 16
4. Asesu	Tudalen 16
5. Cysylltiadau â Gwaith Partneriaid	Tudalen 18
6. Ymyriadau	Tudalen 18
7. Ailasesu	Tudalen 19
8. Dad-ddewis	Tudalen 19
9. Rhoi'r gorau i wasanaeth yn gynnar	Tudalen 20
10. Asesu Cynnydd	Tudalen 20
11. Gwerthuso Gwasanaeth	Tudalen 20
12. Dewis Staff	Tudalen 21
13. Hyfforddiant Staff a Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Tudalen 22
14. Goruchwyliaeth Glinigol	Tudalen 22
15. Cefnogaeth Broffesiynol	Tudalen 23
16. Iechyd a Diogelwch	Tudalen 23
17. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Tudalen 24
18. Cwynion	Tudalen 24
19. Amgylchedd a Diwylliant	Tudalen 24
20. Cadw Cofnodion	Tudalen 25
21. Rhannu Gwybodaeth	Tudalen 25
22. Cysylltiadau â Gwasanaethau Plant	Tudalen 25
23. Gwasanaethau Newydd ac Arloesi	Tudalen 25
6. Comisiynu, Atebolrwydd ac Archwilio	Tudalen 27

Atodiadau

A. Atodiad 1 – Rhestr Wirio

Tudalen 30

Datblygwyd y Safonau hyn mewn cydweithrediad â gweithwyr mewn cyrff statudol, anstatudol ac anllywodraethol, a darparwyr gwasanaethau trydydd sector, ymchwilwyr, llunwyr polisïau, comisiynwyr a chyllidwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cyfraniadau ac am roi eu hamser i fynd i'r digwyddiadau ymgynghori a gweithio ar y ddogfen hon ar ôl hynny, ac yn olaf am rannu eu harbenigedd. Diolch i bawb.

Os ydych yn defnyddio'r Safonau hyn byddem yn hoffi cael gwybod.

Anfonwch e-bost i Lywodraeth Cymru: VAWDASV.LlywodraethCymru-WelshGovernment@gov.wales a rhoi 'Gwasanaethau i Gyflawnwyr' fel pwnc y neges.

1. Rhagair y Gweinidog

Mae Strategaeth Genedlaethol a Fframwaith Cyflawni Llywodraeth Cymru yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd rhoi mwy o bwyslais ar ddwyn cyflawnwyr trais i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch dioddefwyr.

Mae'r gofyniad i sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr yn cael lle canolog wrth gyflawni chwe nod y Strategaeth yn parhau i fod o'r pwys mwyaf. Er hyn, mae'n amlwg bod angen gweithio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol gyda chyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru. Os nad ydym yn darparu cyfleoedd ystyrlon i gyflawnwyr ymgysylltu'n gadarnhaol â gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â'u hymddygiad mewn ffordd effeithiol, mae perygl y byddant yn dal i gam-drin pobl eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn datblygu ymhellach wasanaethau i gyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn fel rhan o'n gwaith ar y 'fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru' 2018-2023. Rydym wedi gweithio mewn cysylltiad agos â phartneriaid i gyfrannu at ein dealltwriaeth o 'beth sy'n gweithio' gyda chyflawnwyr a datblygu gwerthfawrogiad cyffredin o bwysigrwydd ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn dal i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn datblygu darlun clir o risgiau ac anghenion cyflawnwyr VAWDASV ledled Cymru fel sail i waith comisiynu a darparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu'r risgiau a'r anghenion hyn mewn ffordd ymatebol.

Mae gwasanaethau sy'n gyson ddiogel ac effeithiol ar gyfer yr holl gyflawnwyr VAWDASV yng Nghymru ar hyd 'siwrnai'r cyflawnwr' yn hanfodol. Mae dulliau o weithio gyda chyflawnwyr trais drwy ymyriadau cynnar yn gwneud cyfraniad cadarnhaol drwy amddiffyn y cyhoedd a lleihau niwed i ddarpar ddioddefwyr. Fodd

bynag, mae angen gwasanaethau hefyd ar gyfer ad-gyflawnwyr, sydd wedi cael eu colffarnu ac sy'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth a rheolaeth statudol. Bwriedir i'r Safonau gefnogi'r holl waith hwn a chydabod gwerth achrediad sy'n bodoli'n barod gan ddarparwyr arbenigol.

Mae arbenigedd y rhanddeiliaid hynny sydd wedi gweithio gyda ni wedi bod o gymorth mawr er mwyn creu Safonau i ddiwallu anghenion comisiynwyr a gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV ledled Cymru. Bydd y Safonau o ddefnydd uniongyrchol i'r comisiynwyr a'r gwasanaethau hynny, ond y nod yn y pen draw yw bod yn sail i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol i gyflawnwyr trais, gan roi'r cyfle gorau i unigolion sicrhau newid ystyrlon a chynaliadwy. Bydd hyn yn ei dro'n cefnogi ac yn amddiffyn dioddefwyr a goroeswyr, gan gyfrannu tuag at gymdeithas lle gall pawb yng Nghymru fyw heb ofn.



Julie James

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

2. Cefndir

Yn 2015 daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015¹ i rym. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn holl bobl Cymru, beth bynnag eu rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae hefyd yn ymdrin â thrais yn erbyn menyw neu ddyn sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru gydweithio a sicrhau cysondeb er mwyn cael gwell canlyniadau i ddioddefwyr VAWDASV. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol² yn rhoi ystyriaeth benodol i weithio'n effeithiol gyda chyflawnwyr trais, ac mae Amcan 3 yn ceisio rhoi 'mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr'.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod VAWDASV yn ei holl wahanol ffurfiau yn cael mwy o effaith ar fenywod nag ar ddynion yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn cydnabod y gall unrhyw un gael ei effeithio gan drais a chamdriniaeth o'r fath. Mae dioddefwyr i'w cael ym mhob rhan o'r gymdeithas, a gallant gynnwys pobl hŷn, pobl o bob cefndir ethnig, crefydd a chredo, pobl anabl a phobl o'r gymuned LGBT+. Mae'n disgrifio trais ar sail rhywedd fel:

- Trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol
- Anffurfio organau cenhedlu benywod

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted/welsh>

² <https://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/commsafety/181716-vawdasv-delivery-framework-cy.pdf>

- Gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwmo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio)

Mae ffigurau swyddogol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol³ ym Mawrth 2017 yn dangos faint o gam-drin domestig sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr. Amcangyfrifir bod 1.9 miliwn o oedolion rhwng 16 a 59 oed wedi cael profiad o gamdriniaeth ddomestig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2017 (1.2 miliwn o fenywod, 713,000 o ddynion). Menywod oedd saith deg y cant o'r dioddefwyr dynladdiadau domestig a gofnodwyd rhwng 2013 a Mawrth 2016. Yn yr un cyfnod, trafodwyd 83,136 o achosion risg uchel mewn cynadleddau asesu risg amlasiantaethol; 36 o achosion ym mhob 10,000 o fenywod sy'n oedolion. Gyda'r rhan fwyaf o'r oedolion a gyfeiriwyd i gael eu diogelu yn ystod yr un cyfnod, roedd angen cefnogaeth arnynt oherwydd eu bod yn cael eu cam-drin yn eu cartrefi. Yn ôl y ffigurau swyddogol, yn 2017, cofnodwyd 66,704 o ddigwyddiadau a throseddau yn gysylltiedig â cham-drin domestig yng Nghymru. Roedd 34% o'r holl droseddau a oedd yn gysylltiedig â thrais yn yr un flwyddyn yn droseddau a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig.⁴ Cofnododd Gwasanaeth Erlyn y Goron 6,366 o erlyniadau yn gysylltiedig â cham-drin domestig a 4,832 o gollfarnau cysylltiedig â cham-drin domestig yng Nghymru yn 2017.

Nid yw pob achos o gam-drin domestig yn cael ei ddwyn i sylw'r heddlu ac yn cael ei ganfod, ac oherwydd hyn (a chyfyngiadau eraill gyda'r data cysylltiedig), mae'n debyg bod y broblem cam-drin domestig yng Nghymru yn llawer mwy nag y mae'r ffigurau hyn yn ei awgrymu. Yn ychwanegol at hyn, nid yw'r ffigurau'n adlewyrchu'r troseddau ehangach sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Effaith sylweddol troseddau VAWDASV ar gymdeithas sydd wedi ysgogi nifer o newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth yng

³<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2017#main-points>

⁴<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/domesticabuseinenglandandwalesdatatool>

Nghymru. Yn wir, rydym wedi gweld llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau VAWDASV.

Mae'r Ddeddf yn diffinio trais yn erbyn menywod a merched fel:

'Trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol pan fo'r dioddefwr yn fenywaidd.'

Mae'n diffinio trais rhywiol fel:

'Camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rhywiol.'

Cyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)⁵ yn 2015 er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar bob gwasanaeth cyhoeddus i ymgymryd â datblygu cynaliadwy drwy sicrhau bod y pum egwyddor isod yn cael eu hystyried:

1. Sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau
2. Canolbwyntio ar waith atal
3. Cymryd ymagwedd integredig drwy ystyried ym mha ffordd y gallai amcanion llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant ac ar nodau asiantaethau eraill
4. Cydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn cysoni amcanion
5. Cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn llesiant er mwyn sicrhau bod anghenion pob ardal wahanol yn cael eu diwallu

Cefnogir yr agenda hon hefyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.⁶ Mae'r Ddeddf hon yn canolbwyntio ar y ffordd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu

⁵ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>

⁶ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

darparu, fel bod pobl yn cael mwy o lais yn y gofal a'r gefnogaeth a dderbynnir. Mae hefyd yn hyrwyddo cymorth amrywiol sydd ar gael yn y gymuned i leihau'r angen am gefnogaeth ffurfiol wedi'i chynllunio.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 'Symud Cymru Ymlaen 2016-2021'⁷ yn canolbwyntio ar wella'r economi a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r genhadaeth 'Ffyniant i Bawb'⁸ wedi ymrwymo i wella polisiâu caffael er mwyn dod â budd economaidd, cymdeithasol a chymunedol i Gymru. Mae'n amlinellu blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hyn a sicrhau bod pobl yn mwynhau bywyd o ansawdd da, yn byw mewn cymunedau diogel a chryf ac yn cael rhannu ffyniant Cymru.

Mae'r 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023' (a lansiwyd yn ffurfiol ar 19 Ebrill 2018)⁹ yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth hon a pholisi cysylltiedig yn glir. Bydd ffrwd waith VAWDASV y fframwaith yn rhoi sylw i bum prif faes gwaith amlasiantaethol er mwyn sefydlu cymunedau mwy diogel drwy ddatblygu a chynnal dull effeithiol o atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru, amddiffyn y cyhoedd ac adsefydlu'r rhai y mae perygl iddynt droseddu a/neu gam-drin rhywun eto:

1. Sefydlu dealltwriaeth o 'beth sy'n gweithio' gyda chyflawnwyr VAWDASV
2. Darparu gwybodaeth a fydd yn sail i gomisiynu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy i gyflawnwyr VAWDASV
3. Datblygu dulliau atal ac ymyriadau cynnar i fynd i'r afael â chyflawnwyr VAWDASV

⁷ <https://llyw.cymru/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy>

⁸ <https://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

⁹ <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/180301-framework-support-positive-change-risk-of-offending-wales-cy-v1.pdf>

4. Gwella cysylltiadau â gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV, cyfathrebu a rhannu ymarfer effeithiol
5. Datblygu gweithlu medrus a gwydn ar gyfer y gwasanaeth i gyflawnwyr VAWDASV

Bydd y Safonau'n helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Mae gwaith mapio rhanbarthol wedi dangos pa mor gymhleth yw gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV yng Nghymru. Mae gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDSAV sy'n seiliedig ar orchymyn llys a gwaith gwirfoddol neu gosbau cymunedol yn cael eu darparu gan ystod o sefydliadau statudol ac anstatudol (rhai wedi'u datganoli a rhai heb eu datganoli). Er enghraifft, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru (sy'n cynnwys carchardai'r sector cyhoeddus, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol), yn darparu gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV, gan gynnwys rhaglenni ymddygiad troseddol. Yn fwy eang, mae gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV yn ymdrin â lleoliadau cymunedol a charchardai ac yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond mae'n ymddangos nad oes llawer o wasanaethau penodol ar gyfer achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd fel y'i gelwir, a chyflawnwyr priodasau dan orfod (er nad yw'n amlwg faint o angen sydd am wasanaethau o'r fath).

Ar hyn o bryd mae'r gwasanaethau'n cynnwys ymyriadau unigol, gwaith grŵp ac ymyriadau penodol sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, yn ogystal â dulliau ehangach o fynd i'r afael â'r risg a achosir gan gyflawnwyr VAWDASV a rheoli'r risg honno. Mae rhai gwasanaethau i gyflawnwyr trais wedi cael eu hachredu (gan Respect neu Banel Achredu a Chynghori'r Gwasanaethau Cywirol), rhai heb gael eu hachredu, ac mae eraill yn gweithio tuag at achrediad. Mae'n werth sylwi nad yw pob un o'r gwasanaethau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer achrediad sydd ar gael, o ran y 'math' o gyflawnwyr trais y maent yn eu targedu nac ychwaith o ran natur y dull gweithredu. Yr hyn sydd yn glir yw nad oes digon o wasanaethau i gyflawnwyr trais ar gael ar hyn o bryd, na digon o amrywiaeth.

Mae rhagor o anghysonderau rhwng y dulliau asesu risg, yr angen a'r ymateb, ac yn eu tro, rhwng y gwasanaethau sy'n cael eu darparu er mwyn mynd i'r afael â'r

rhain yn effeithiol. Nid yw pob dull o asesu a chyfathrebu cynnydd cyflawnwyr trais yn ystod ymyriadau mor gadarn â'i gilydd, ac nid oes cysondeb rhwng y dulliau o werthuso effeithiolrwydd cyffredinol y gwasanaethau a ddarperir. Argymhellwyd y dylai'r broses gomisiynu fod yn ehangach ac yn fwy cyfannol, ac y dylai gael ei harwain gan broffiliau risg, angen ac ymateb, yn ogystal ag ystyried natur a maint yr angen lleol. Er mwyn cyflawni hyn, mae comisiynwyr yn dibynnu ar wybodaeth a data a gesglir am y gwasanaethau lleol sy'n targedu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a gaiff eu cynnig yn eu hardal.

Drwy edrych ar y darlun ehangach o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gall comisiynwyr gymharu'r gwasanaethau presennol a/neu wasanaethau sy'n cael eu cynllunio â'r data am anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â manteisio ar wybodaeth am yr arferion gorau / 'beth sy'n gweithio'. Bydd y dull gweithredu hwn yn caniatáu i gomisiynwyr ganfod bylchau a deall y gofynion, o ran beth sydd ei angen ac ym mhle, a bydd hynny yn ei dro yn sail i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

3. Pwrpas Safonau

Ar gyfer pwy mae'r Safonau a beth yw eu diben?

Bwriadwyd i'r Safonau hyn gael eu defnyddio gan **gomisiynwyr** a **gwasanaethau** wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â datblygu, darparu, gwerthuso a chomisiynu (neu ddatgomisiynu) gwasanaethau i gyflawnwyr trais VAWDASV yng Nghymru. Maent yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer pob gwasanaeth (gan gynnwys rhaglenni i unigolion a grwpiau, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) sy'n cael ei ddarparu i gyflawnwyr yr holl wahanol fathau o VAWDASV yng Nghymru sy'n ceisio mynd i'r afael â'r agweddau/meddylfryd/teimladau/ymddygiadau sydd y tu ôl i gyflawni VAWDASV. Ni fwriadwyd iddynt fod yn berthnasol i wasanaethau sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion ehangach cyflawnwyr VAWDASV (er enghraifft problemau camddefnyddio sylweddau, tai, addysg a hyfforddiant, iechyd meddwl ac yn y blaen).

Bwriadwyd i'r Safonau hyn gynorthwyo comisiynwyr yn y sectorau statudol ac anstatudol i gomisiynu gwasanaethau o safon uchel i gyflawnwyr trais, a sicrhau

mai'r gwasanaethau hyn yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn effeithiol ac o leihau'r perygl o ragor o niwed i gyfranogwyr, dioddefwyr/goroeswyr a darpar ddioddefwyr/goroeswyr VAWDASV, staff ac unigolion perthnasol eraill. Maent yn ceisio cefnogi'r broses o ddatblygu a darparu gwasanaethau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cynnig dewisiadau i gyflawnwyr trais er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau sydd wrth wraidd eu hymddygiad troseddol/camdriniol a gweithio tuag at fywyd heb gam-drin â pherthnasoedd cadarnhaol, iach. Maent hefyd yn cyfrannu tuag at y trydydd o'r chwe amcan sydd yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 – 2021: "mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr".

Oherwydd cymhlethdod VAWDASV, yr ystod eang o is-grwpiau o gyflawnwyr, yr amrywiaeth o ran risgiau (h.y. tebygolrwydd o ymddygiad troseddol/camdriniol yn y dyfodol a natur a lefel debygol y niwed) angen a ffactorau ymateb (h.y. targedau ymyrryd y mae angen rhoi sylw iddynt a nodweddion sy'n effeithio ar ymgysylltiad â gwasanaeth) a'r ystod o droseddau y mae Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt, cydnabyddir ei bod yn debygol y bydd angen cyfres o wasanaethau i fynd i'r afael â risgiau ac anghenion cyflawnwyr VAWDASV yng Nghymru. Dylai'r rhain adlewyrchu camau amrywiol yn ystod 'siwrnai cyflawnwr trais' pan allai gwasanaethau gael eu defnyddio. **Dylai comisiynwyr a gwasanaethau gofio na fydd un rhaglen unigol yn addas i bob cyflawnwr VAWDASV.**

Mae'r Safonau hyn yn benodol gymwys i gomisiynwyr a gwasanaethau, ond gall rhanddeiliaid ehangach gyfeirio atynt hefyd, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV. Gallant gael eu defnyddio, er enghraifft, gan gyflawnwr trais i nodi disgwyliadau o ran ansawdd gwasanaethau y dylai eu cael, a/neu gan ddioddefwyr a goroeswyr sydd â chwestiynau neu bryder ynglŷn â'r Safonau y dylai gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV fod yn eu dilyn. Dylai comisiynwyr sicrhau bod prosesau atebolrwydd clir yn cael eu cynnwys ar gyfer cyflawnwyr, dioddefwyr a goroeswyr, partneriaid a chyn-bartneriaid, yn ogystal â sefydliadau partner a gomisiynwyd. Ac, os mai dim ond y Safonau hyn a'r rhestr


wirio sy'n cael eu defnyddio, dylid darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer mecanweithiau atebolrwydd.

4. Sut mae'r Safonau'n gymwys i'r achrediadau presennol?

Cynlluniwyd y Safonau hyn er mwyn darparu meincnod ar gyfer gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV yng Nghymru, ac o ganlyniad maent yn darparu set gynhwysfawr o feini prawf y dylai pob gwasanaeth i gyflawnwyr VAWDASV yng Nghymru gydymffurfio â hwy. Nid yw'r Safonau'n ceisio cynnig dewis arall yn lle'r achrediad arbenigol presennol ar gyfer gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV sy'n rhan o'u cylch gwaith (fel y rhai sy'n cael eu darparu gan Banel Achredu a Chynghori'r Gwasanaethau Cywirol a Safon Respect). Lle bo modd dylid cefnogi gwasanaethau i gael achrediad o'r fath, oherwydd cydnabyddir bod y rhain yn ddulliau arbennig o gynhwysfawr a chadarn o sicrhau darpariaeth ddiogel ac effeithiol.

Dylid derbyn tystiolaeth bod gwasanaethau wedi cael eu hachredu gan y cyrff hyn fel tystiolaeth y byddent hefyd yn bodloni'r Safonau a amlinellir yn y ddogfen hon, yna ni fyddai gwasanaethau'n gorfod dyblygu gwaith i ddangos eu bod yn cydymffurfio. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, y gall ffynonellau 'achrediad' eraill gael eu cynnig gan sefydliadau sydd y tu allan i'r sector VAWDASV arbenigol (e.e. gan ddarparwyr Addysg), ond ni fydd y rhain yn ystyried y materion penodol yn ymwneud â diogelwch ac effeithiolrwydd sy'n rhan annatod o wasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV. Dylai gwasanaethau ag achrediad anarbenigol felly ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau a ddarperir yn y ddogfen hon.

Ffigur 1. Mae'r diagram hwn yn dangos y broses o wneud penderfyniadau wrth gomisiynu gwasanaethau i gyflawnwyr



Mae'r gwasanaethau/rhaglenni a ganlyn yng Nghymru yn cael eu hachredu ar hyn o bryd gan Respect (mae'r rhestr ddiweddaraf i'w gweld ar wefan Respect:

<http://respect.uk.net/>):

- Dewis Newid Cymru
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Phoenix
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Threshold

Mae'r rhaglenni a ganlyn wedi'u hachredu gan Banel Achredu a Chynghori'r Gwasanaethau Cywirol (CSAAP):

- Creu Gwell Perthnasoedd
- Kaizen
- Rhaglen Perthnasoedd Iach
- Becoming New Me
- Living as New Me

- New Me Strengths
- Becoming New Me +
- Horizon
- i-Horizon
- Rhaglen Rhyw Iach

5. Y Safonau

Cyflwynir y Safonau a ganlyn dan is-benawdau perthnasol er mwyn i bobl allu dod o hyd iddynt yn rhwydd. Fodd bynnag, nid ydynt o reidrwydd yn cael eu cyflwyno yn y drefn y bydd gwasanaeth yn gweithredu, ac yn sicr nid ydynt yn nhrefn eu pwysigrwydd. Dylid bodloni pob safon, a rhagori arnynt os oes modd. Bwriadwyd iddynt fod yn glir, ond nid ydynt mor gyfarwyddol nes eu bod yn gorchymyn sut y dylid bodloni pob Safon neu ddarparu tystiolaeth ar gyfer pob un, ac mae hynny'n rhoi hyblygrwydd i'r ystod o wasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV.

1. Atgyfeirio

- i. Dylid cael llwybr clir a hygyrch i alluogi unigolion/asiantaethau perthnasol i gyfeirio achosion at wasanaethau i gyflawnwyr trais
- ii. Dylai'r gwasanaethau atgyfeirio a'r rhai sy'n derbyn yr atgyfeiriad gael prosesau clir ar gyfer cofnodi a gweithredu ar atgyfeiriadau o fewn terfynau amser a nodwyd ac yn unol â strategaeth flaenoriaethu
- iii. Lle bo'n briodol, dylid cael llwybr clir a hygyrch i alluogi cyflawnwyr trais i atgyfeirio eu hunain a chael mynediad at wasanaeth
- iv. Dylai gwasanaethau sy'n derbyn atgyfeiriadau gael prosesau clir ar gyfer ymateb i'r unigolyn/asiantaethau atgyfeirio sy'n cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data¹⁰
- v. Mae angen i'r gwasanaeth i gyflawnwyr gyfathrebu'n benodol â dioddefwr/goroeswr/partner/cyn-bartner cyn gynted ag y bo modd, a hynny mae'n debyg ar ôl derbyn atgyfeiriad

2. Meini Prawf Cymhwysedd

- i. Dylid cael meini prawf clir a hygyrch i ddangos pwy sy'n gymwys i gael ei ystyried ar gyfer y gwasanaeth i gyflawnwyr trais a phwy sydd ddim

¹⁰ <https://eugdpr.org>

- ii. Dylai cymhwysedd gynnwys ystyriaeth o 'addasrwydd' a 'pharodrwydd' fel ei gilydd
- iii. Dylid cael proses â therfynau amser ar gyfer ymateb i atgyfeiriadau ac ail-atgyfeiriadau
- iv. Os nad yw achos yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth i gyflawnwyr trais, dylid egluro hyn yn glir wrth y sawl sydd wedi gwneud yr atgyfeiriad, ac awgrymu dewisiadau eraill os yw hynny'n briodol

3. Cydsyniad

- i. Dylai gwasanaethau bob amser geisio cael cyflawnwr trais i gydsynio'n ddeallus i gymryd rhan mewn gwasanaeth i gyflawnwyr VAWDASV (statudol ac anstatudol) cyn gynted ag y bo modd
- ii. Dylid gofyn am gydsyniad hyd yn oed gan y cyflawnwyr VAWDASV hynny sy'n derbyn gwasanaethau dan orchymyn llys. Dylai hyn gynnwys trafodaeth glir ynglŷn â'r canlynol:
 - a. Beth mae'r unigolyn yn cydsynio i'w wneud
 - b. Canlyniadau posibl cydsynio
 - c. Canlyniadau posibl peidio â chydsynio
 - d. Sut y bydd gwybodaeth am yr unigolyn yn cael ei defnyddio a'i rhannu
- iii. Mae angen cofnodi achosion lle nad yw'n bosibl cael cydsyniad a chyfiawnhau hynny'n glir

4. Asesu

- i. Dylai cyflawnwyr trais sy'n cael eu hystyried ar gyfer gwasanaethau i gyflawnwyr fynd drwy brosesau asesu sy'n defnyddio offer safonedig y dangoswyd eu bod yn ddilys ac yn ddibynadwy mewn gwaith ymchwil a gyhoeddwyd. Os nad oes offer safonedig, dylai gwasanaethau allu dangos dull gwrthrychol a chynhwysfawr o asesu

- ii. Dim ond staff sydd wedi cael hyfforddiant penodol i ddefnyddio'r offer ddylai asesu cyflawnwyr trais ar gyfer gwasanaethau i gyflawnwyr
- iii. Dylai aseswyr sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau i gyflawnwyr trais fod wedi derbyn hyfforddiant yn y canlynol:
 - a. Cyfweld cymhellol/ymgysylltu'n gadarnhaol â chyflawnwyr trais
 - b. Ymwybyddiaeth o VAWDASV (yn ymdrin â'r ymddygiadau cyflawnwyr VAWDASV sy'n berthnasol i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu o leiaf)
 - c. Diogelu
 - d. Gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain
- iv. Dylai asesiadau ar gyfer gwasanaethau i gyflawnwyr fod yn seiliedig ar egwyddorion Risg, Angen ac Ymatebedd:

Risg: dylid asesu risg drwy ddefnyddio offeryn wedi'i gefnogi a'i ddilysu'n empirig, a dylid ei ddefnyddio er mwyn penderfynu faint o 'ddos' o'r driniaeth sydd ei hangen, gan gymryd y bydd cyflawnwyr risg uwch yn derbyn mwy o ymyriadau.

Angen: dylid asesu angen drwy ddefnyddio offeryn wedi'i gefnogi a'i ddilysu'n empirig. Dylai'r asesiad nodi presenoldeb a pherthnasedd y ffactorau y gellir eu newid sy'n gysylltiedig VAWDASV a dylai helpu aseswyr i benderfynu ar beth y dylai triniaeth yr unigolyn ganolbwyntio.

Ymatebedd: dylai'r asesiad ystyried y ffactorau amrywiol a allai atal unigolyn rhag ymgysylltu, a nodi yn ei dro 'sut' y dylid darparu triniaeth er mwyn cynyddu effeithiolrwydd. Gall y rhain gynnwys materion fel iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, anawsterau/anableddau dysgu, trawma/anhwylder straen wedi trawma, ac yn y blaen.

- v. Dylai asesiad driongli tystiolaeth o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys:
 - a. Cofnodion swyddogol
 - b. Adroddiadau dioddefwr/goroeswr/partner

c. Cyfweiliadau gyda chyflawnwyr

- vi. Rhaid i'r asesiad fod yn sail glir i gynllun y gwasanaeth, ac i'r graddau y mae hynny'n bosibl, dylid mabwysiadu dull unigoledig o fynd i'r afael ag anghenion penodol (hyd yn oed mewn grwpiau)

5. Cysylltiadau â Gwaith Partneriaid

- i. Cyn unrhyw ymgysylltiad â gwasanaeth i gyflawnwyr trais, dylid sefydlu cysylltiadau clir rhwng staff gwasanaeth i gyflawnwyr ac unrhyw wasanaethau sy'n ymwneud â dioddefwyr/goroeswyr/partneriaid/cyn-bartneriaid
- ii. Bydd angen i bob gwasanaeth sy'n gweithio gyda chyflawnwyr trais sicrhau bod gwybodaeth glir sy'n disgrifio'r ymyriad a'r canlyniadau disgwyliedig ar gael i wasanaethau sy'n bartneriaid
- iii. Os nad yw cysylltiad o'r fath yn bosibl, neu os nad yw'n briodol (e.e. mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cyflawni troseddau rhyw yn y gorffennol, lle nad yw manylion adnabod/lleoliad y dioddefwr/dioddefwyr yn hysbys) rhaid rhoi rhesymau clir i gyfiawnhau hynny. Rhaid ystyried a chymryd camau priodol ar gyfer y posibilrwydd y gallai bod gan gyflawnwyr trais nifer o ddioddefwyr (yn y gorffennol a/neu ar hyn o bryd)

6. Ymyriadau

- i. Dylai gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn grwpiau gael eu gweithredu gan ddau hwylusydd. Dylid ystyried a ddylai un o'r hwyluswyr fod yn ddyn a'r llall yn fenyw (e.e. os yw'r ymyriad yn targedu stereoteipiau rhyw), er mwyn dangos modelu rôl cadarnhaol. Oherwydd natur y gwaith hwn gellir hysbysebu'r swyddi hyn fel rhai sy'n agored i ymgeiswyr

benywaidd yn unig, neu i ymgeiswyr gwrywaidd yn unig, gan ddefnyddio esemptiadau dan Atodlen 9 Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹¹

- ii. Dylai'r gwasanaethau fod yn seiliedig ar fodel clir o newid sy'n cael ei gefnogi gan lenyddiaeth VAWDASV empirig gyfredol, wedi'i chyfeirnodu'n glir

7. Ailasesu

- i. Dylid sefydlu prosesau er mwyn sicrhau bod y cynllun asesu risg ac ymyrryd yn cael ei ailystyried (ac yn cael ei ddiwygio os oes angen) pan fydd gwybodaeth newydd yn dod i law
- ii. Dylai hyn gynnwys prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth newydd fel sail i'r Cynllun Rheoli Risg ehangach gydag awdurdodau perthnasol sy'n ymwneud â'r dioddefwr/goroeswr/partner/plentyn/plant, a'r cyflawnwr trais

8. Dad-ddewis

- i. Dylid cael proses glir â meini prawf cysylltiedig ar gyfer dad-ddewis unigolion o wasanaeth i gyflawnwyr trais. Dylai'r broses ystyried y canlynol:
 - a. Rhagor o achosion o gam-drin (gallai gwybodaeth am gam-drin pellach gael ei datgelu gan y cyflawnwr ei hun, neu gan ddioddefwr, goroeswr, partner neu gyn-bartner, neu gallai ddod o wybodaeth gan y gwasanaeth neu o wybodaeth gan yr Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol neu asiantaethau perthnasol eraill)
 - b. Gofyniad ymbresenoli sylfaenol
 - c. Ymgysylltu a chyfranogi ystyrlon
 - d. Disgwyliadau o ran ymddygiad

¹¹ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

- ii. Os yw hynny'n briodol ac yn ddiogel, dylid cael prosesau i geisio cael y cyflawnwr trais i ail-ymgysylltu cyn i'r dad-ddewis ddigwydd
- iii. Mae angen ystyried effaith bosibl dad-ddewis ar risg, a dylid hysbysu'r asiantaethau perthnasol ynglŷn â hyn, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda'r partner/cyn-bartner/dioddefwr/goroeswr/unrhyw blant, yn ogystal â'r cyflawnwr trais mewn unrhyw fodd arall
- iv. Mae angen diwygio Cynlluniau Rheoli Risg ar ôl dad-ddewis

9. Rhoi'r gorau i wasanaeth yn gynnar

- i. Dylid cael proses glir ar gyfer ymdrin â chyfranogwyr nad ydynt yn dod i'r gwasanaeth i gyflawnwyr a/neu sy'n rhoi'r gorau i'r gwasanaeth cyn i'r cyfnod darparu gwasanaeth ddod i ben yn ffurfiol
- ii. Dylid cael prosesau i geisio ail-ymgysylltu'r cyflawnwr trais cyn bod rhoi'r gorau i'r gwasanaeth / dad-ddewis yn anorfod

10. Asesu Cynnydd

- i. Dylid cael prosesau dilys a dibynadwy ar gyfer gwerthuso a rhoi gwybod am gynnydd cyfranogwyr unigol mewn gwasanaeth i gyflawnwyr trais
- ii. Dylai gwerthusiad o gynnydd gynnwys (er na ddylai ddibynnu ar hynny yn unig) adroddiad gan y cyfranogwr ei hun yn ogystal â'i bartner/dioddefwr(wyr)/goroeswr ynghyd â chofnodion yr hwyluswyr (ac adroddiadau gweithwyr proffesiynol eraill os ydynt yn berthnasol)
- iii. Dylid mesur cynnydd ar sail canlyniadau bwriadedig yr ymyriad, ynghyd â'r asesiad cychwynnol ar sail risg, angen ac ymatebedd

11. Gwerthuso'r Gwasanaeth

- i. Dylid cael prosesau dilys a dibynadwy ar gyfer gwerthusiad rheolaidd (e.e. blynyddol) o effeithiolrwydd cyffredinol y gwasanaeth i gyflawnwyr trais (h.y. a yw'n cyflawni'r nodau a'r amcanion datganedig)

- ii. Dylai'r gwerthusiad gynnwys effaith y gwasanaeth/ymyriad ar y cyflawnwyr, y dioddefwyr, goroeswyr, partneriaid a chyn-bartneriaid a'u teuluoedd
- iii. Dylid cydnabod cyfyngiadau i brosesau gwerthuso (er enghraifft samplau bach, methiant i ddilyn hynt cyfranogwyr yn y tymor hir, ac yn y blaen)
- iv. Os yw'n bosibl dylai gwerthuswyr annibynnol (e.e. partneriaid academiaidd) nad ydynt yn ymwneud â darparu'r gwasanaeth fod yn gyfrifol am ei werthuso
- v. Dylai gwasanaethau gael cynllun clir â therfynau amser er mwyn adolygu'r canlyniad ac argymhellion unrhyw werthusiad o'r gwasanaeth, ac addasu eu dulliau ymarfer yn unol â hynny

12. Dewis Staff

- i. Dylid cael proses glir ar gyfer dewis staff i ddarparu gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV
- ii. Dylai'r meini prawf ystyried cymwyseddau, gwerthoedd a gwytnwch personol perthnasol
- iii. Dylai'r holl ddarpar staff gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Dylid cynnal gwiriadau er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r posibilrwydd y gallai unigolion sy'n gyflawnwyr VAWDASV neu sydd wedi bod yn gyflawnwyr trais o'r fath yn y gorffennol ymwneud â darparu gwasanaethau i gyflawnwyr. Dylid cynnal y gwiriadau hyn yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.¹² i. Dylai staff y datgelwyd bod ganddynt gefndir o fod yn ddioddefwr/goroeswr/cyflawnwr gael eu cefnogi er mwyn sicrhau eu bod wedi rhoi sylw i'w profiadau eu hunain cyn gweithio'n uniongyrchol â chyflawnwyr VAWDASV

¹² <https://www.legislation.gov.uk/sdsi/2018/9780111037744>

13. Hyfforddiant Staff a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

- i. Dylid darparu hyfforddiant o safon uchel i staff (h.y. yn seiliedig ar dystiolaeth o ran ei gynnwys a'r dull cyflwyno, yn ogystal ag arbenigedd yr hyfforddwr), sy'n cael ei ddarparu gan unigolion/sefydliadau â chefnidir clir mewn darparu gwasanaeth perthnasol i gyflawnwyr VAWDASV, hyfforddi a diogelu
- ii. Dylai'r hyfforddiant gynnwys prosesau clir ar gyfer adnabod y staff hynny sydd heb sgiliau digonol i ddarparu'r gwasanaeth i safon dda, a naill ai darparu cymorth ychwanegol iddynt i wella eu hymarfer, neu eu dad-ddewis o'r rôl
- iv. Dylai gwasanaethau ddal cyllidebau hyfforddiant a hwyluso hyfforddiant rheolaidd (gan gynnwys hyfforddiant cynefino) a goruchwyliaeth i'r holl staff

14. Goruchwyliaeth Glinigol

- i. Dylai'r holl staff sy'n darparu gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV gael mynediad at oruchwyliaeth glinigol reolaidd yn ogystal â chefnogaeth broffesiynol, gan oruchwyliwr profiadol sydd â chymhwyster goruchwyllo perthnasol. Dylai'r oruchwyliaeth gael ei chofnodi a dylai gynnwys trafodaeth o'r canlynol:
 - a. Cynllunio a chynnydd ymyriadau unigol a/neu grŵp
 - b. Datblygu sgiliau hwyluswyr
 - c. Amrywiaeth a chydraddoldeb
 - d. Perthnasoedd cydweithio
 - e. Dynameg ryngpersonol/grŵp
 - f. Llesiant a gwytnwch personol
 - g. Adborth datblygiadol i hwyluswyr

15. Cefnogaeth Broffesiynol

- i. Er y dylai goruchwyliaeth glinigol gynnwys trafodaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar wytnwch personol, dylai hwyluswyr hefyd gael mynediad at wasanaeth cefnogi/cwnsela proffesiynol cyfrinachol ar wahân os oes angen. Dylai cefnogaeth broffesiynol gael ei darparu ar wahân i oruchwyliaeth glinigol a dylai fod yn ychwanegol ati

16. Iechyd a Diogelwch

- i. Dylai'r holl wasanaethau i gyflawnwyr trais gael polisiâu iechyd a Diogelwch cyhoeddedig
- ii. Mae angen ystyried y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau i gyflawnwyr trais. Rhoddir sylw i hyn drwy asesiad risg sy'n ymdrin â'r canlynol:
 - a. Mynediad i adeiladau (staff a defnyddwyr gwasanaethau)
 - b. Y posibilrwydd y gallai cyflawnwyr trais ddod i gysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau eraill (yn enwedig dioddefwyr VAWDASV)
 - c. Risg o niwed i staff
 - d. Risg o niwed i bartneriaid, cyn-bartneriaid a darpar bartneriaid
 - e. Risg o niwed i gyfranogwyr
 - f. Uchafswm yr oriau y gall staff ddarparu gwasanaethau i gyflawnwyr trais bob wythnos
 - g. Trefnu seibiant o'r gwaith o ddarparu'r rhaglen i staff
 - h. Diogelu (gan adlewyrchu canllawiau penodol y DU a Chymru)

17.Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- i. Dylai pob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i gyflawnwyr trais gael polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth cyhoeddedig
- ii. Dylid cymhwyso'r polisïau hyn i'r staff a'r cyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau i gyflawnwyr trais, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â hi
- iii. Dylai pob gwasanaeth i gyflawnwyr trais gael asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

18.Cwynion

- i. Dylai'r holl wasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV gael proses gwyno sy'n cael ei chyfathrebu'n glir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ehangach
- ii. Dylai'r broses gwyno gynnwys amserlenni, ymchwiliad gwrthrychol, a chanlyniadau sy'n cael eu cyfathrebu'n glir i achwynwyr

19.Amgylchedd a Diwylliant

- i. Dylai gwasanaethau uniongyrchol geisio darparu amgylchedd addas ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau i gyflawnwyr trais, gan ystyried addasrwydd ystafelloedd grwpiau, toiledau, ystafelloedd aros, ac yn y blaen
- ii. Dylai gwasanaethau sy'n dod o fewn cylch gwaith y Safonau hyn, ond nad ydynt yn cael cyswllt uniongyrchol â chyflawnwyr VAWDASV (e.e. oherwydd bod eu gwasanaethau'n cael eu darparu ar-lein neu dros y ffôn), ddangos sut y maent yn gwneud iawn am y diffyg cyswllt uniongyrchol i hyrwyddo ymgysylltiad cadarnhaol â defnyddwyr eu gwasanaethau

20. Cadw Cofnodion

- v. Dylai'r holl gofnodion gael eu cymryd, eu cludo, eu cynnal, eu cadw a'u dinistrio yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data berthnasol¹³
- i. Dylai pob cyswllt â'r cyflawnwyr trais gael ei gofnodi'n glir drwy system nodiadau achos

21. Rhannu Gwybodaeth

- i. Dylid cael Protocol Rhannu Gwybodaeth clir ar gyfer pob gwasanaeth i gyflawnwyr trais a dylai gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol

22. Cysylltiadau â Gwasanaethau Plant

- i. Cyn ymgysylltu â gwasanaeth i gyflawnwyr trais, dylid sefydlu cysylltiadau clir rhwng staff y gwasanaeth i gyflawnwyr ac unrhyw wasanaethau sy'n ymgysylltu â phlant neu lys-blant y cyflawnwr, yn ogystal â'r plant hynny sy'n byw yn yr un cyfeiriad ond nad ydynt yn perthyn i un o'r categorïau hyn
- ii. Dylid rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau â gwasanaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion

23. Gwasanaethau Newydd ac Arloesi

- i. Os yw gwasanaeth i gyflawnwyr trais yn cael ei dreialu a/neu os yw'n ymyriad 'newydd', dylid cael tystiolaeth o'r canlynol:
 - a. Bod y gwasanaeth i gyflawnwyr trais yn seiliedig ar theori berthnasol gyfredol sydd wedi cael ei chyhoeddi, h.y. er na ellir rhoi tystiolaeth o effeithiolrwydd y gwasanaeth ei hun eto, mae sail resymegol ddamcaniaethol gadarn i ddangos pam y gallai gyflawni'r nodau ac amcanion datganedig

¹³ <http://gdpr-legislation.co.uk/>


- b. Model newid clir
- c. Sut mae'r ymyriad yn cael ei werthuso er mwyn sefydlu effeithiolrwydd
- d. Cynllun ar gyfer datblygu tuag at achrediad (os ydynt yn dod o fewn cylch gwaith yr achrediad arbenigol sydd ar gael)

6. Comisiynu, Atebolrwydd ac Archwilio

Mae comisiynu yn cynnwys nifer o wahanol weithgareddau, er enghraifft:

- asesu anghenion
- cynllunio gwasanaethau/cynllunio ar gyfer adolygu
- caffael gwasanaethau
- adolygu/monitro ansawdd a chanlyniadau

Ffigur 2. Mae'r diagram hwn yn dangos y cylch comisiynu



Bydd yr egwyddorion ar gyfer comisiynu gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV yng Nghymru, os byddant yn cael eu cymhwyso, yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau i gyflawnwyr, o safon uchel, yn cael ei datblygu a'i chynnal ledled Cymru. Fel comisiynydd neu ddarparwr gwasanaeth bydd y camau hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau a dylid eu hystyried bob amser wrth gynllunio ar gyfer adolygu/archwilio gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Comisiynu dim ond pan fydd sail dystiolaeth glir
- Sicrhau comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau os oes mesuriadau clir a rheolaidd o effeithiolrwydd y gwasanaeth/rhaglen sy'n cael ei darparu
- Sicrhau bod adolygiad ac archwiliad ymhlith y gofynion ar gyfer cyllid
- Dylai comisiynwyr fonitro a/neu gyflwyno adroddiad i ddangos i ba raddau y maent yn cydymffurfio â Safonau Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio'r rhestr wirio isod

- Dylai comisiynwyr a gwasanaethau ddilyn y Canllawiau Comisiynu VAWDASV a fydd yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir gan Lywodraeth Cymru

Mae'n ymarfer da i ddarparwyr gwasanaethau adolygu a myfyrio ar bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Dylai comisiynwyr sefydlu systemau i sicrhau **adolygiad rheolaidd** o'r gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV sy'n cael eu comisiynu yn eu hardal/rhanbarth (neu drwy Gymru, lle bo'n gymwys), gan gynnwys:

- Gweithredu prosesau archwilio cadarn
- Defnyddio dulliau comisiynu cyson sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risg a diwallu angen mewn ffordd ymatebol
- Datblygu dulliau comisiynu cyffredin drwy gymhwyso rhestr wirio'r Safonau
- Dylai gweithgaredd comisiynu gael ei gynllunio a'i gydlynw er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau cynaliadwyedd
- Rhaid cael canlyniadau clir a dulliau dilys a dibynadwy o fesur ac adrodd am y canlyniadau
- Dwyn darparwyr i gyfrif

Dylid adolygu'r gwasanaethau presennol i gyflawnwyr VAWDASV ac ystyried i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r Safonau hyn, drwy ddefnyddio'r rhestr wirio a (lle bo'n briodol) dylid sefydlu cynlluniau â therfynau amser er mwyn anelu at gydymffurfio os nad yw hynny i'w weld. Os nad yw cydymffurfiad yn debygol o ddigwydd, dylai comisiynwyr ystyried datgomisiynu gwasanaethau o'r fath a chomisiynu dewisiadau eraill o safon uchel ar gyfer risgiau ac anghenion cyflawnwyr trais.

Dylid cydnabod hefyd y gall cydymffurfiad â'r Safonau amrywio a dylai comisiynwyr sefydlu systemau er mwyn adolygu'r gwasanaethau i gyflawnwyr VAWDASV sy'n cael eu comisiynu yn eu hardal/rhanbarth (neu ledled Cymru, lle bo'n berthnasol) yn aml drwy brosesau cefnogi ac archwilio cadarn gan ddefnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 1. Mae'n hanfodol bod comisiynwyr yn

rhoi sylw i wasanaethau sy'n honni eu bod yn mynd i'r afael ag ymddygiadau cyflawnwyr VAWDASV drwy ddulliau amhriodol (a niweidiol o bosibl) heb yr wybodaeth arbenigol sydd ei hangen ynglŷn â chyflawnwyr trais, er enghraifft drwy raglenni rhianta a/neu therapi cyplau.

Dylai comisiynwyr ystyried y costau y gall gwasanaethau eu hwynebu wrth geisio dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau a amlinellir yn y ddogfen hon. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod y gwasanaethau eu hunain yn mynd i allu ysgwyddo costau o'r fath â'u cyllidebau presennol oherwydd gallai hyn gael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen. O ganlyniad, dylai costau datblygu a chynnal gwasanaethau yn unol â'r Safonau hyn gael eu hymgorffori mewn cytundebau contract. Dylid rhoi sylw dyledus ym mhob gweithgaredd comisiynu, gan gadarnhau'r holl ffeithiau, adolygu cofnodion ariannol, ac yn y blaen.

Atodiad 1

Rhestr Wirio Safonau Cyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Lluniwyd y Rhestr Wirio hon i'w defnyddio ar y cyd â Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais Llywodraeth Cymru ac mae'n helpu comisiynwyr, darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau i asesu i ba raddau y mae gwasanaeth i gyflawnwyr VAWDASV yn cydymffurfio â'r Safonau			
A yw'r gwasanaeth wedi cael ei achredu yn barod (achrediad arbenigol yn unig e.e. Respect neu CSAAP)? Os nad yw, ewch i'r adran 'gomisiynu' yn y Rhestr Wirio			
Dylid rhoi sgôr Coch, Oren, Gwyrdd i bob eitem – Coch (ddim yn bodloni'r meini prawf), Oren (yn bodloni'r meini prawf yn rhannol), Gwyrdd (yn bodloni'r meini prawf yn gyfan gwbl). Bydd unrhyw eitemau Coch yn dangos nad yw'r gwasanaeth wedi bodloni'r safonau a bydd angen rhoi sylw i'r maes a'i ailasesu. Dylid adolygu unrhyw feysydd Oren o fewn amserlen gytunedig sy'n rhoi cyfle i'r gwasanaeth eu gwella a symud i statws Gwyrdd.			
Rhif	Safon	Tystiolaeth	Statws COG
1.	Atgyfeirio		
	Beth yw'r llwybr atgyfeirio?		
	Allwch chi gyfeirio eich hun? Sut?		
2.	Meini prawf cymhwysedd		
	Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?		
3.	Cydsynio		
	Sut y gofynnir am gydsyniad?		
4.	Asesu		
	Pa offeryn asesu sy'n cael ei ddefnyddio?		

Pa ymchwil sydd y tu ôl i'r offeryn hwn?			
Pa hyfforddiant sydd ar gael ac sy'n cael ei weithredu er mwyn galluogi aseswyr i ddefnyddio'r offeryn?			
Sut mae'n ymdrin â chyfweld cymhellol /ymgysylltu?			
Sut mae'r Asesiad yn ystyried risg?			
Sut mae'r Asesiad yn ystyried angen?			
Sut mae'r Asesiad yn ystyried ymatebedd?			
Sut mae'r asesiad yn cyfeirio at gofnodion swyddogol?			
Sut mae'n cyfeirio at adroddiadau dioddefwyr?			
Sut mae'n cyfeirio at adroddiadau goroeswyr?			
Sut mae'n cyfeirio at adroddiadau partneriaid?			
Sut mae'n cyfeirio at gyfweiliadau â chyflawnwyr?			
5.	Cysylltiadau â gwaith partneriaid		
Sut mae cysylltiadau â gwasanaethau eraill yn cael eu gwneud?			
Sut gallwch chi ddod o hyd i wybodaeth am yr ymyriad?			
6	Ymyriadau		
Sut y mae'r grwpiau'n cael eu staffio?			
Beth yw'r sail dystiolaeth / model newid?			
7.	Ailasesu		
Pryd mae ailasesu'n digwydd ac a yw'n cynnwys barn awdurdodau perthnasol?			
8.	Dad-ddewis		
Beth yw'r broses dad-ddewis a sut y mae'n ystyried:			

Ymbresenoli sylfaenol?			
Ymgysylltu? Ail-ymgysylltu?			
Ymddygiad?			
Aildroseddu?			
Rheoli Risg?			
9.	Rhoi'r gorau i'r gwasanaeth yn gynnar		
Beth yw'r broses?			
10.	Asesu Cynnydd		
Beth yw'r broses?			
11.	Gwerthuso Gwasanaeth		
Pwy sy'n gwerthuso?			
A ydynt yn annibynnol?			
Pam y cawsant eu dewis?			
Beth yw'r amserlen?			
Pa mor aml ac yn y blaen?			
12.	Dewis Staff		
Pa feini prawf sy'n cael eu cymhwyso i recriwtio? (cymwyseddau, gwerthoedd, profiad)			
Sut mae gwiriadau DBS a fetio'n cael eu cymhwyso?			
13.	Hyfforddiant Staff a Datblygiad Proffesiynol Parhaus		
Pa fath o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu?			
Sut mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu?			
14.	Goruchwyliaeth Glinigol		
Sut mae staff yn cael mynediad at oruchwyliaeth glinigol?			
15.	Cefnogaeth Broffesiynol		

Sut mae staff yn cael mynediad at gefnogaeth gyfrinachol ar wahân?			
16.	Iechyd a Diogelwch		
Beth yw'r polisi?			
17.	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth		
Beth yw'r polisi?			
18.	Cwynion		
Beth yw'r broses?			
19.	Amgylchedd a Diwylliant		
Sut mae'r amgylchedd yn gweddu i weithwyr a defnyddwyr gwasanaeth?			
20.	Cadw Cofnodion		
Beth yw'r broses?			
21.	Rhannu gwybodaeth		
Beth yw'r protocol?			
22.	Cysylltiadau â Gwasanaethau Plant		
Sut maen nhw'n cysylltu â gwasanaethau perthnasol?			
23.	Gwasanaethau Newydd ac Arloesi		
Beth yw'r sail dystiolaeth / theori?			
Beth yw'r model newid?			
Pwy fydd yn gwerthuso? Beth fyddan nhw'n ei werthuso?			
Beth mae angen iddyn nhw ei wneud er mwyn cael achrediad arbenigol?			
Comisiynu, Atebolrwydd ac Archwilio			

Beth yw'r angen y bydd y gwasanaeth hwn yn ei ddiwallu?		
Beth yw'r sail dystiolaeth?		
Pwy mae'r gwasanaeth yn ei dargedu?		
Beth yw'r bwlch yn y gwasanaeth ar gyfer y grŵp hwn sy'n cael ei dargedu?		
A oes gwasanaeth arall sy'n cynnig hyn yn lleol? Ystyried		
Beth yw'r canlyniadau? A ydynt wedi'u diffinio'n glir? I ddefnyddwyr gwasanaethau: I'r gwasanaeth:		
Sut bydd canlyniadau'n cael eu mesur? Ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau? Ar gyfer y gwasanaeth?		
A yw'r dull gweithredu yn seiliedig ar drawma? Sut mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei gymhwyso?		
Sut mae'r gwasanaeth yn dangos gwerth am arian?		
Sut byddwch chi'n archwilio/adolygu'r gwasanaeth hwn?		
Sut fydd y gwasanaeth yn cael ei werthuso? A yw'r gwasanaeth yn annibynnol?		
Sut mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ariannu? Pryd fydd y cyllid yn dod i ben? Beth yw'r cynllun cynaliadwyedd?		
Beth yw'r model newid? Sut bydd y gwasanaeth yn dangos ei fod yn dilyn y model?		